

Beth ydym yn eu olygu drwy Esgeulustod?



Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys y diffiniad canlynol: Mae 'esgeulustod' yn golygu methu â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at nam ar les yr unigolyn (er enghraifft, nam ar iechyd yr unigolyn neu, yn achos plentyn, nam ar ddatblygiad y plentyn).

Esgeulustod yw'r methiant i gwrdd ag anghenion sylfaenol ac hanfodol plentyn gan gynnwys anghenion corfforol, emosiynol a meddygol. Mae'n gallu cynnwys methiant i ddarparu bwyd, dillad a lloches digonol, methiant i amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol ac emosiynol a methiant i ddarparu triniaeth neu ofal

meddygol digonol.

Gall ddigwydd yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i gam-drin sylweddau gan y fam. Mae'n gallu digwydd hefyd cyn i blentyn gael ei eni a'r rhiant yn methu paratoi'n briodol ar gyfer genedigaeth y plentyn, methu â cheisio cael gofal cyn-geni, ac/neu ymgysylltu mewn ymddygiad sy'n rhoi'r babi mewn perygl.

Mae esgeulustod yn gallu digwydd mewn gwahanol ffurfiau, gan amrywio o arwyddion corfforol amlwg fel gwisgo'n annigonol i blant bach yn cael eu gadael eu hunain yn y cartref neu ar y strydoedd am gyfnodau o amser maith. Mae'n bosibl na fydd

gan blentyn gefnogaeth rhiant i fynd i'r ysgol, yn colli apwyntiadau iechyd ac yn cael eu hanwybyddu pan fyddant yn ofidus.

Sail dystiolaeth:

Gall esgeulustod gyfaddawdu datblygiad plentyn yn sylweddol. Tra bod ymchwil yn awgrymu y gall esgeulustod fod yn arbennig o niweidiol yn y blynyddoedd cynnar ble mae'n gallu effeithio ar ddatblygiad cymdeithasol, emosiynol a niwrobiologol - mae'n gallu cyfaddawdu datblygiad drwy gydol plentyndod a llencyndod. Mae yna ganlyniadau hirdymor yn gallu digwydd hyd at fod yn oedolyn. Gall ymarferwyr ofni cael eu hystyried yn feirniadol wrth weithio gyda theluedd difreintiedig ac mae hyn yn effeithio ar eu hystyriaeth pa un a yw plentyn yn cael ei niweidio.

Nid yw esgeulustod yn ymddangos fel argyfwng sydd angen cymryd camau ar unwaith yn aml, mae'n digwydd yn aml ynghyd â ffurfiau eraill o gamdriniaeth a gall ymarferwyr ddod yn gyfarwydd â natur cronig esgeulustod. Mae ymateb effeithiol hefyd angen i ymarferwyr edrych y tu hwnt i gyfnodau o fagu plant unigol a deall yr esgeulustod mewn cyd-destun.

Yn achosion esgeulustod cronig (yn wahanol i achosion unigol dwys) mae nifer o asiantaethau yn cymryd rhan a defnyddir amryw o ymyriadau dros amser heb lawer o effaith. Gall teuluoedd fod yn destun atgyfeiriadau ac ymyriadau niferus dros nifer o flynyddoedd, gyda newidiadau mewn prif ymarferwyr yn arwain at sefyllfa ble maent yn ymdrechu i hybu newid heb gydnabod cylch blaenorol o

welliannau byr ac ail bwl gan y teulu.¹³ Mae casglu gwybodaeth hanesyddol a thystiolaeth am achos o esgeulustod posibl er mwyn llywio cronoleg yn arbennig o bwysig i lywio penderfyniadau am y perygl i les a datblygiad plentyn.

Mae yna hefyd dystiolaeth o 'obaith ffug' mewn achosion o esgeulustod ble mae ymarferwyr yn nodi ymgysylltiad rhieni ond nid yn ystyried a yw newid yn digwydd mewn ffordd sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiadau'r plentyn. Mae achosion o esgeulustod hefyd yn gallu bod yn arbennig o fregus i ffugio cydymffurfiaeth.

Dysgu ar gyfer gwell ymarfer

- Creu darlun o brofiadau cronol o esgeulustod ac asesu a fydd rhieni'n gallu newid
- Cadw chwilfrydedd proffesiynol ac ansicrwydd parchus
- Ymgysylltu â theluedd
- Gweithio'n agos ag asiantaethau eraill i nodi pryderon a chynllunio ymyraethau
- Rhoi cymorth cynnar cyfannol ac amserol
- Cynnal asesiadau cadarn a chynhwysfawr

Os oes pryderon ynghylch esgeulustod, dylid cefnogi pob gweithiwr proffesiynol i ddefnyddio pecyn gwaith asesiad risg. Mae'r dulliau asesu yn seiliedig ar dystiolaeth a gaiff eu hargymell mewn adolygiadau yn cynnwys:

- y Proffil Gofal Graddedig sy'n cyflwyno strwythur ar gyfer asesu math a lefel yr esgeulustod fel y gellir mynd i'r afael ag ef mewn modd amserol a phriodol

